O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 4

Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*16 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 4

The Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*16 January 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 4

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/1511 (Cy. 147)) ("Rheoliadau 2009").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2009 gyda'r effaith bod Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu cyfarwyddo i arfer swyddogaethau penodedig Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar https://www.llyw.cymru.

2026 Rhif 4

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*16 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(1)(b), 203(9) a (10) a 204(3)(c)(i) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

Diwygio Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae i'r ymadrodd "taliadau uniongyrchol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "direct payments" yn adran 10B(8) o'r Ddeddf."

(3) Ar ôl rheoliad 4 (swyddogaethau i'w harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol) mewnosoder—

"Swyddogaethau i'w harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol ar ac ar ôl 1 Ebrill 2026

4A.—(1) Ar ac ar ôl 1 Ebrill 2026, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru a bennir yn—

(a) adrannau 10B(1) a 10D o'r Ddeddf (taliadau uniongyrchol am ofal iechyd a threfniadau â chyrff eraill sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol)(**3**), a

(**1**) 2006 p. 42 ("y Ddeddf"). Mae cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran 203 o'r Ddeddf bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**2**) O.S. 2009/1511 (Cy. 147), y mae diwygiadau iddo ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**3**) Mewnosodwyd adrannau 10B i 10D yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan adran 24(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1).

(b) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026.

(2) Ond mae arfer y swyddogaethau a bennir ym mharagraff (1) yn ddarostyngedig i—

(a) rheoliad 5, a

(b) unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau mewn Gorchymyn BILl."

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
16 Ionawr 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 4

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/1511 (W. 147)) ("the 2009 Regulations").

Regulation 2 amends the 2009 Regulations with the effect that Local Health Boards are directed to exercise the specified functions of the Welsh Ministers in relation to the making of direct payments.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the website at https://www.gov.wales.

2026 No. 4

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*16 January 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 12(1)(b), 203(9) and (10) and 204(3)(c)(i) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

Amendment of the Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) Regulations 2009

2.—(1) The Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) Regulations 2009(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), in the appropriate place in alphabetical order insert—

> ""direct payments" ("*taliadau uniongyrchol*") has the same meaning as in section 10B(8) of the Act;".

(3) After regulation 4 (functions to be exercised by Local Health Boards) insert—

> **"Functions to be exercised by Local Health Boards on and after 1 April 2026**
>
> **4A.**—(1) On and after 1 April 2026, a Local Health Board must exercise the functions of the Welsh Ministers specified in—
>
> (a) sections 10B(1) and 10D of the Act (direct payments for health care and arrangements with other bodies relating to direct payments)(**3**), and

(**1**) 2006 c. 42 ("the Act"). References to the National Assembly for Wales in section 203 of the Act now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**2**) S.I. 2009/1511 (W. 147), to which there are amendments but none are relevant.
(**3**) Sections 10B to 10D were inserted into the National Health Service (Wales) Act 2006 by the Health and Social Care (Wales) Act 2025 (asc 1), section 24(2).

(b) the National Health Service (Direct Payments) (Wales) Regulations 2026.

(2) But the exercise of the functions specified in paragraph (1) is subject to—

(a) regulation 5, and

(b) any prohibitions or restrictions in an LHB Order."

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care under authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
16 January 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839774-1

9 780348 397741